***Y Fforddd*: Cwrs y Flwyddyn, bob blwyddyn**

Hydref-Tachwedd: Rhan 1

Rhagfyr-Ionawr: Rhan 2

Chwefror-Mawrth: Rhan 3

Ebrill-Mai: Rhan 4

Trosolwg o'r cynllun

Medi 2016

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg,
Tŷ John Penri,
5 Axis Court,
Parc Busnes Glanyrafon,
Bro Abertawe,
Abertawe.
SA7 0AJ

Trosolwg o Gynllun

1. Mae cynllun *Y Ffordd* yn ymestyn dros bedair mlynedd, o 2016 tan 2020, a bydd y deunydd yn cael ei gyhoeddi yn ei bryd yn ystod y cyfnod hwn.

2. Dyma themâu y pedair blynedd:

Blwyddyn 1	2016-17:	Ffyrdd drwy'r Beibl
Blwyddyn 2	2017-18:	Y Ffordd y daethom
Blwyddyn 3	2018-19:	Tystiolaeth Pobl y Ffordd
Blwyddyn 4	2019-20:	Gofal Pobl y Ffordd

3. Mae pob blwyddyn o weithgarwch yn ymestyn o ddechrau mis Hydref tan ddiwedd mis Mai. Dyna wyth mis o weithgarwch.

4. Mae pob bloc o wyth mis wedi ei rannu'n bedair rhan, felly mae pob rhan o gwrs pob blwyddyn yn ymestyn dros ddeufis.

5. Rhwng Hydref 2016 a Mai 2017, dyma'r pynciau fydd yn cael eu trafod.

   Hydref-Tachwedd: Rhan 1:
   Sut mae darllen a deall y Beibl?
   Rhagfyr-Ionawr: Rhan 2:
   Y Beibl ym mywyd yr eglwysi heddiw.
   Chwefror-Mawrth: Rhan 3:
   Beth mae Cristnogion yn ei gredu heddiw?
   Ebrill-Mai: Rhan 4:
   Meithrin ac adeiladu eglwysi.

6. Cyhoeddir fideo a deunyddiau Rhan 2 yn ystod pythefnos olaf Tachwedd 2016, fideo a deunyddiau Rhan 3 yn ystod pythefnos olaf Ionawr 2017, a fideo a deunyddiau Rhan 4 yn ystod pythefnos olaf Mawrth 2017.

7. Er bod y cynllun yn cael ei lansio ym mis Medi 2016, nid yw'r gweithgarwch yn dechrau tan fis Hydref. Rhydd hyn gyfle i chwi drefnu grwpiau trafod neu rannu deunydd.

8. Bydd fideo a deunyddiau Blwyddyn 2, Rhan 1, yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2017.

O dro i dro, mewn ymateb i adborth, neu er mwyn atgyfnerthu rhan o'r cwrs, bydd deunyddiau ychwanegol yn cael eu cyhoeddi. Os byddwch yn dymuno awgrymu pwnc neu thema, gwahoddwn chwi i gysylltu â ni yn Nhŷ John Penri.